Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

**Cylchlythyr yr Ofalaeth**

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 30 Calan 2015



*Gweld y bach ac ildio byd*

*Annwyl ffrindiau,*

Rhan go bwysig o bob drama Nadolig yw ymweliad y doethion â'r preseb ym Methlehem ac yn yr hanes cyfarwydd yn Efengyl Mathew cawn ein cyflwyno i dri math o berson gwahanol, sef y Brenin Herod, y seryddion a'r baban Iesu. Mae'r tri chymeriad yn cynrychioli tair ffordd o fyw sy'n wahanol iawn i'w gilydd ac yn gosod ger ein bron y math o ddewisiadau sy'n wynebu pob un ohonom y Nadolig hwn, a phob Nadolig arall o ran hynny.

Y brenin Herod yw'r cyntaf i ymddangos ar y llwyfan. Adeg geni Iesu, roedd Herod eisoes wedi bod ar orsedd Jwdea am dros ddeng mlynedd ar hugain. Rheolai'r wlad â llaw gadarn. Brenin creulon ydoedd ac mae'r hanes amdano'n lladd pob bachgen ym Methlehem oedd yn ddwyflwydd oed neu lai yn gyson ag erchyllterau eraill o'i eiddo. Pan glywai Herod am unrhyw wrthwynebiad i'w awdurdod, hyd yn oed ymhlith ei deulu ei hun, byddai rhywrai yn siŵr o dalu'r pris.

Mae Herod yn swnio mor gyfarwydd. Mae e mor nodweddiadol o rai o unbenaethiaid y byd heddiw sy'n byw yn foethus yn eu palasau crand, ond yn gadael i'w deiliaid fyw mewn tlodi enbyd. Daliant afael ar eu hawdurdod drwy ddefnyddio trais a gormes ac ânt ati'n fwriadol i greu arswyd a dychryn. Wrth orchymyn ei filwyr i ladd y babanod ym Methlehem, roedd Herod yn efelychu strategaeth Pharoaid yr Aifft ganrifoedd ynghynt. Pan yrrodd milwyr Israel nifer fawr o Balestiniaid o'u cartrefi ar y Lan Orllewinol yn ddiweddar, onid ailadrodd eu hanes eu hunain a wnaent pan ddinistriwyd cannoedd ar gannoedd o bentrefi Iddewig yng ngwlad Pwyl a'r Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Daw'r doethion i'r llwyfan. Stereoteipiau oedden nhw hefyd, pobl yn ceisio ac yn chwilio – dilynwyr y ffasiwn ddiweddaraf, seryddion, dynion hysbys, gwylwyr y nen. Y gair amdanynt yn y Roeg wreiddiol yw *magoi* (sêr-ddewiniaid). Deuai'r doethion o'r dwyrain, lle mae'r wawr yn torri. Estroniaid oeddent, pobl a berthynai i genedl, diwylliant a chrefydd gwahanol. Gwelsant rywbeth syfrdanol a'u cymhellodd i fynd ar eu taith i Jerwsalem ac roedd yn rhaid iddynt ddod o hyd i'r brenin newydd.

Mae'r rhai sy'n ceisio ac yn chwilio wastad yn llawn ffydd a gobaith y bydd yna yfory gwell. Edrychant ar yr ochr olau i bethau, a chredant ei bod hi'n werth rhoi un cynnig arall arni. Beth am i ni fynd i weld y brenin newydd a chyfarch gwell iddo? Efallai'n wir y daw tro ar fyd. Hyd y gwyddom unwaith yn unig y cyfarfu'r doethion â'r Iesu, ond yr oedd y cyfarfyddiad hwnnw'n ddigon i wneud iddynt gredu y gallai'r byd fod yn lle gwahanol iawn ac nad y Brenin Braw oedd yr unig ddewis mewn bywyd.

Fe ddaw hyn â ni at Iesu. Dim ond baban ydyw yn yr hanes, ond ef yw canolbwynt yr holl weithgareddau. Mae popeth yn troi o'i gwmpas: ymweliad y seryddion, y ffoi i'r Aifft a lladd y plant ym Methlehem. Ond er mai baban ydyw, roedd Iesu yn ymgorfforiad o frenhiniaeth newydd, o gyfundrefn wahanol, o ffordd o fyw amgenach, yn union fel yr oedd y rhai a'i ceisiodd wedi'i obeithio. Dim ond peth bach, dim ond llygedyn o obaith – ond yr oedd hynny'n ddigon i roi llawenydd yng nghalonnau'r seryddion. Un baban yn unig a gafodd ei achub mewn pentre cyfan – ond mae hynny'n dangos beth all ddigwydd i unrhyw un sy'n troi cefn ar gasineb Brenin Braw ac yn cofleidio dysgeidiaeth Tywysog Tangnefedd.

Ond go brin y byddai'r un ohonom mewn gwirionedd yn dewis Herod fel ei arwr. Tybed? Hawdd iawn yw gwrthod Iesu am ein bod yn anfodlon gadael iddo fod yn frenin ar ein teyrnas. Ac onid ydym yn rhy barod o lawer i feithrin casineb tuag at eraill? Os ydym am fod yn wahanol ac am fyw o dan awdurdod Iesu yn hytrach na Herod, rhaid i ni sicrhau fod gennym ffordd o fyw amgenach, rhaid i ni ofyn cwestiynau, rhaid i ni chwilio am y daioni bach yng nghanol y drygioni mawr. Ac os gwnawn ni guro ar ddigon o ddrysau, diau y llwyddwn yn y man i agor drws y llety lle mae Iesu'n teyrnasu.

O na welem y golud, – a'i weled
Gyda'r galon hefyd;
Gweld y bach ac ildio byd
Am aur y mawr Ymyrryd.

*Ieuan Wyn*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris*

# Tudalen y Plant

Ydych chi'n gwybod yr atebion i'r cwis Nadoligaidd hwn?

1. Ble roedd Joseff a Mair yn byw? ____________________
2. Pa enw roedd Duw am i Mair ei roi ar ei mab? _______
3. Ble cafodd Mair a Joseff le i aros? ___________________
4. Ble gosodwyd y baban i gysgu? _____________________
5. Pwy ddywedodd wrth y bugeiliaid fod y baban Iesu wedi'i eni? ______________________________________
6. Pwy gafodd eu harwain gan seren i chwilio am y baban?

   ________________________________________________

Mae pob llythyren **a**, **e** ac **o** ar goll o'r adnod. Llanwch y bylchau i weld beth oedd y neges a gafodd y bugeiliaid:

"P_idiwch _ b_d _fn. M_ _ g_n i n_wyddi_n d_ i chi, n_wyddi_n fydd yn gwn_ud p_bl ym mh_bm_n yn ll_w_n i_wn."

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **31 Ionawr**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i
Edward Morrell,
Ysgol Sul Capel Seion,
enillydd tasg
y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 31 Rhagfyr | Gwylnos yng Nghapel y Garn am 11.30 pm dan arweiniad y Gweinidog |
| 19 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 21 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro Capel Rehoboth, Taliesin, am 1.30 o'r gloch |
| 21 Ionawr | Cwis y Morlan Canolfan y Morlan, Aberystwyth, am 7 o'r gloch |
| 31 Ionawr | Oedfa ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchedig Peter Thomas a neilltuo'r Barchedig Judith Morris yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, Capel Bethel, Aberystwyth, am 2 o'r gloch |
| 1 Mawrth | Oedfa Menter Gobaith |
| | Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org |
| | Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn |

Llongyfarchiadau i'r Barchedig Judith Morris ar ei phenodiad yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru.

Cynhelir oedfa ddwyieithog o ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchedig Peter Thomas ar ei ymddeoliad o'r swydd, a neilltuo'r Barchedig Judith Morris bnawn Sadwrn, 31 Ionawr, yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 2 o'r gloch.

Bydd y Dosbarth Beiblaidd yn ailddechrau ddydd Mawrth, 6 Ionawr, yn festri Capel y Garn am 2 o'r gloch, ac yn dilyn y gyfrol *Cydymaith Stori Duw*.



Croesewir aelodau hen a newydd.

**Dechrau'r gwaith**

Wedi i gân yr angylion ddistewi,
wedi i'r seren gilio o'r ffurfafen,
wedi i'r bugeiliaid ddychwelyd at eu praidd,
yna, bydd gwaith y Nadolig yn cychwyn:
canfod y colledig,
iacháu'r clwyfedig,
bwydo'r newynog,
rhyddhau'r carcharor,
ailadeiladu cenhedloedd,
dwyn heddwch i blith y bobl,
creu cerddoriaeth yn y galon.

Howard Thurman, Cymdeithas y Cymod
(dyfynnwyd o *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

**PLANT AC IEUENCTID GOGLEDD CEREDIGION YN CAEL MODD I FYW**

Yn ystod gwyliau hanner tymor daeth criw sylweddol o blant ac ieuenctid ynghyd i weithgareddau a drefnwyd dan arweinyddiaeth Zoe Jones, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith.

Ddydd Mawrth, 28 Hydref, cynhaliwyd Joio@Morlan ar gyfer plant 7–11 oed y fro, lle mwynhawyd llu o wahanol weithgareddau. Daeth bron i ddeg ar hugain o blant ynghyd yng Nghanolfan Morlan i 'joio' dan arweiniad Zoe ac Arawn, ac yn ystod y dydd cafwyd amrywiol sesiynau o gemau, gwaith crefft, cwis a gwylio ffilm. Diwrnod llawn hwyl a chyffro dan adain Menter Gobaith.

Yna, ddydd Gwener, 31 Hydref, tro'r ieuenctid oedd hi i ddod at ei gilydd yng Nghanolfan Gymunedol y Borth i gystadlu'n frwd mewn gemau pêl-droed a phêl-rwyd, gyda Derfel Reynolds yn dyfarnu, a Kieran Owen yn rhannu'i brofiad mewn sgwrs gyda'r ieuenctid. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan, ond y tro hwn, tîm bechgyn Capel y Morfa a enillodd yr ornest bêl-droed a'r tîm merched hŷn daeth i'r brig yn y gystadleuaeth bêl-rwyd.

Y bwriad yw trefnu dyddiau tebyg o weithgareddau yn ystod yr hanner tymor nesaf fis Chwefror. Cofiwch gadw llygad am wybodaeth bellach am weithgareddau Menter Gobaith, neu cysylltwch â Zoe Jones i gael eich rhoi ar y rhestr bostio (zoejones34@gmail.com neu 01970 611510 ).

## *Teitl Duw*



Fel arfer, fel hyn mae rhywun pwysig yn cael ei gyflwyno:
'Mr Peth-a'r-Peth – Sylfaenydd y Cwmni Pwysig Hwn!' neu
'Miss Be-chi'n galw – Dyfeisydd y Peth Anhygoel Yma!'

Wyddoch chi sut mae Duw'n hoffi cael ei gyflwyno?

'. . . yr Arglwydd yw ei enw . . . Tad yr amddifaid ac amddiffynnydd y gweddwon . . .' SALM 68:4,5

Mae'r Duw Hollalluog – fu'n rhidyllu'r sêr rhwng ei fysedd – yn sefyll nid gyda brenhinoedd a thywysogion, ond gyda'r gwan, y di-rym a'r tlawd.

Oherwydd mae gan y bobl sy'n gwbl ddibwys, yng ngolwg rhai, le arbennig yng nghalon Duw. Mae'n clywed eu cri. Mae'n ymladd drostyn nhw ac yn eu hamddiffyn.

Ac un noson ym Methlehem, ymhell, bell yn ôl, camodd o'r nefoedd a dod yn un ohonyn nhw.

(o *Cân, f'enaid, Cân*, Sally Lloyd-Jones, addasiad Cymraeg Eleri Huws. Cyhoeddiadau'r Gair, 2014)

## *Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Penllwyn*



Bore Sul, 7 Rhagfyr, braf oedd gweld un ar ddeg o ffyddloniaid yr Ysgol Sul, gyda chymorth eu hathrawon, yn cyflwyno hanes y geni i gynulleidfa o aelodau, rhieni, teulu a chyfeillion. Flwyddyn ar ôl blwyddyn adroddir yr hanes, ond bob blwyddyn ni ellir peidio â rhyfeddu at berthnasedd y neges i ni heddiw. Hyfryd oedd cael gweld y plant yn adrodd yr hanes yn eu gwisgoedd ac yn amlwg yn cymryd eu rhannau o ddifrif. Cawsom ein hatgoffa o ran Mair, Joseff, yr angylion, y bugeiliaid, y doethion a Herod yn yr hanes, heb anghofio gwaith pwysig yr asyn.

Wedi i'r plant gyfleu'r neges yn eu ffordd unigryw eu hunain, cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Gweinidog. Wrth feddwl am y Nadolig, yr hyn a ddaw i feddwl y mwyafrif ohonom yw'r anrhegion sydd i'w prynu a'u rhoi, ac wrth gwrs yr hyn sy'n amlwg ym meddyliau'r plant yw'r anrhegion y byddant yn eu derbyn. Yng nghyflwyniad y plant, cyflwynwyd anrhegion i'r baban Iesu yn y preseb – yn oen bychan oddi wrth y bugeiliaid ac aur yn anrheg oddi wrth un o'r doethion. Fe'n heriwyd gan y Gweinidog wrth iddo ofyn beth fyddem ni yn ei roi fel anrheg i'r Iesu. Nid neges wedi ei chyfyngu i'r Nadolig yn unig yw'r ateb i'w gwestiwn heriol. Mae'r Iesu'n dymuno i ni roi ein calonnau iddo, rhoi ein bywydau yn ei ofal Ef. Wrth ganu'r carolau, y mae eu geiriau mor gyfarwydd, daw cyfoeth gwirioneddau neges syml yr Efengyl i'n hatgoffa o bwysigrwydd neges y Nadolig.

Ar ddiwedd y gwasanaeth, cyflwynodd y Gweinidog rodd o gomig Beiblaidd Nadolig i bob un o'r plant a oedd wedi cymryd rhan.

## *Newyddion Seion*

Nos Fawrth, 4 Tachwedd, cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch yn Seion. Y cennad gwadd oedd y Parchedig Dafydd Aeron, ficer plwyf Llangeitho. Cafwyd ganddo bregeth heriol ac amserol iawn a chyfeiriadau difyr at gymeriadau ei fro. Llywyddwyd yr oedfa gan y gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, a Rhian Dafydd oedd yn cyfeilio. Diolch am yr arddangosfa yn portreadu Dameg yr Heuwr gan blant yr ysgol Sul, dosbarth Eirlys ac Angharad. Cafwyd ymateb hael dros ben gan yr aelodau i gyfrannu rhoddion o fwydydd o bob math, yn gynnyrch cartref a bwydydd parod. Rhannwyd y rhoddion rhwng Cartref Gofal Bodlondeb a Banc Bwyd Aberystwyth. Yn dilyn yr oedfa daeth cyfle i gymdeithasu yn Swper y Cynhaeaf a baratowyd gan y chwiorydd.

Prynhawn Sul, 16 Tachwedd, aeth pump o aelodau'r ysgol Sul i gynnal gwasanaeth yng nghartref gofal Tregerddan. Braf oedd cael cwmni nifer o'r trigolion yn yr oedfa ac yn ymuno'n llawen i ganu'r emynau a oedd mor gyfarwydd iddynt. Diolch am y croeso arferol a dymuniadau gorau'r Nadolig iddynt oll yn y cartref.

Yng nghymdeithas y Paith nos Fercher, 12 Tachwedd, pleser fu croesawu'r Parch Wyn Morris atom i sôn am ei daith i'r India. Gwnaeth hynny drwy gyfrwng sgwrs a llun yn ddiddorol dros ben. Roedd pob un wedi gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu mwy am ardal y mae ei henw yn golygu llawer yng nghyswllt Cenhadaeth yr Eglwys, sef Bryniau Casia. Diolchwyd i Wyn gan Elen Lewis.

Bore Sul, 23 Tachwedd, mewn oedfa gymun dan ofal y Gweinidog, bedyddiwyd William Huw Rees, sef mab Elgan a Kirsty Rees, brawd i Cari a Becca, ac ŵyr i Morwenna ac Ieuan Rees, Bwlch Mawr. Yn ogystal â theulu Elgan, yn bresennol hefyd cafwyd cwmni aelodau o deulu Kirsty o Ogledd Iwerddon. Gwahoddodd Wyn Morris frawd yng nghyfraith Kirsty, sy'n bregethwr lleyg, i helpu i weinyddu'r cymun. Dymunwn bob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.


Daeth rhyw saith deg o bobl i ymweld ag Arddangosfa'r Rhyfel Mawr yn Neuadd y Paith. Diolch i bawb a fu'n trefnu'r ymweliad, i Neuadd y Paith am fod yn gartref iddi am ddeuddydd ac i'r dwsin o wirfoddolwyr ar y rota. Llwyddiant mawr yn wir.



Rhai o blant Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn yn ymweld ag Arddangosfa’r Rhyfel mawr gyda Wyn Morris yn Neuadd y Paith, 21 Tachwedd

Casgliad o ysgrifau gan gyfeillion W. Rhys Nicholas i nodi canmlwyddiant ei eni. Golygwyd gan Rhidian Griffiths; gyda detholiad o'i waith gan E. Wyn James.

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Emynau Cymru; pris: £6.95



## *Pwyllgor Eglwys y Garn*

Pan gyfarfu'r Pwyllgor Eglwys ar 26 Tachwedd fe'i cadeiriwyd gan ein llywydd newydd, y Parch Wyn Rhys Morris. Talodd deyrnged i'w ragflaenydd, Wynne Melville Jones, am ein tywys drwy ein blwyddyn gyntaf ag egni a brwdfrydedd.

Erbyn cyhoeddi 'Gair o'r Garn' bydd ein hysgrifennydd newydd, sef y Bnr Dewi G. Hughes wedi dechrau ar ei waith hefyd. Ddiwedd y flwyddyn bydd Dewi yn peidio â bod yn gyfrifol am yr adeiladau, swyddogaeth a gymerodd arno dros dro yn unig pan ymadawodd y Bnr Bryn Lloyd am Gaerdydd. Mawr yw ein diolch iddo am gytuno i lanw'r bwlch.

Mae'n ddihareb bron fod 'rhywbeth i'w wneud o hyd ar adeiladau'. Braf yw gweld (a pheidio clywed) y gwresogyddion newydd yn gweithio yn dawel ac effeithiol yn y festri fach. Llai amlwg yw'r gwaith trydanol llawer mwy sylweddol sydd wedi cael ei wneud yn y capel. Anodd credu bod gwifrau trydan wedi eu gosod yn y concrit o dan draed y blaenoriaid ac wedi cael eu hymestyn i'r oriel. Diolch i'r trydanwr Eifion Gwynne am gwblhau'r gwaith rhwng dau ddydd Sul.

Dim ond rhywun â phrofiad ohono all ddirnad cymaint o lwch sy'n cael ei greu wrth dorri i mewn i goncrit. Diolch arbennig felly i Kate a James McCann (Tŷ Capel) am waith arwrol yn glanhau ar ôl y gweithwyr fel na tharfwyd ar leoliad y gwasanaethau. Erbyn hyn bydd y system sain, sydd wedi bod yn dipyn o boen yn ddiweddar, wedi cael ei diweddaru gan gwmni SIS o'r Drenewydd hefyd.

Pan ddaw'r gwanwyn bwriedir gwneud gwaith ar do'r Garn a Bethlehem. Gan y bydd raid cael sgaffaldiau at y gwaith, bydd gwaith paentio yn cael ei wneud yr un pryd.

Os oes gwaith cynnal a chadw ar adeiladau nid didrafferth yw gwerthu chwaith. Diolch i Dewi Hughes am lywio gwerthiant adeiladau'r Gerlan, y Borth, drwy drafferthion lawer. Rydym yn hynod o falch ein bod wedi llwyddo i werthu i Peter Fleming, Cymro Cymraeg o'r ardal sydd wedi sefydlu ei fusnes ei hun yn y Borth yn barod. Pob bendith a llwyddiant iddo.

Diolch i Wynne Melville Jones, gwelir y baneri'n cyhoeddi gwir ystyr y Nadolig o'r ffordd fawr eleni eto. A diolch i nifer o wirfoddolwyr fu'n dosbarthu'r llyfryn 'Wele cawsom y Meseia' a'r daflen yn ein croesawu i ymuno yn y gwasanaeth i ddathu'r Nadolig. Mae hyn yn ein hatgoffa unwaith eto na ellir cynnal eglwys heb aelodau (ac eraill) sydd yn fodlon rhoi o'u hamser i hyrwyddo'r gwaith.

Yn y flwyddyn newydd fe welwch fod un o wasanaethau mis Ionawr yng ngofal aelodau'r Garn. Gyda nifer y gweinidogion ordeiniedig yn mynd yn brinnach bob blwyddyn, mae'n ofynnol i bob eglwys gymryd y cyfrifoldeb am ddyfeisio a chynnal ei gwasanaethau ei hunan. Mae'r Garn yn mynd i roi blaen ei bys yn y dŵr yn 2015.

Bendith Duw fo ar ein gweithgarwch ac arnoch chithau. Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

*Eddie T Jenkins*

## Ionawr

*Blaenor y Mis: D Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**4** Parch Elwyn Pryse am 10 o'r gloch
Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 5 o'r gloch

Aelodau'r Noddfa yn ymuno yn y Garn

7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Dringo Kilimanjaro' gydag Angharad Lewis

**11** Oedfa'r bore dan ofal Zoe Jones ac aelodau'r Eglwys
Oedfa'r hwyr dan arweiniad Mr Huw Roderick

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Bro fy Mebyd' gyda Gill, Judith, Llio a Nia Peris

**18** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**25** Parch Ddr John Tudno Williams

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n methu ymuno â ni yng ngweithgareddau'r eglwys oherwydd gwahanol amgylchiadau, megis llesgedd a salwch, y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi, mewn ysbytai neu mewn cartrefi gofal. Hefyd, cofiwn am y teuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid.

Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd a gweddïwn y bydd iddynt dderbyn o lawenydd a thangnefedd yr Hwn sydd yn ein cadw ac yn ein cynnal yn niddanwch ei gariad.

Llongyfarchiadau calonnog i:

Nans Morgan ar dderbyn medal am roi deng mlynedd o wasanaeth i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol;

Wynne Melville a Linda Jones ar enedigaeth wyres, Nel Marged, merch i Manon a Gwion, a chwaer i Ianto a Twm;

Glyn a Gill Saunders Jones ar enedigaeth ŵyr, Osian Siôn, mab i Siôn a Catrin, a chwaer i Efa.

A'r rhifyn hwn ar fin mynd i'r wasg, daeth y newyddion trist am farwolaeth Mr Eddie Jones, gŵr a wnaeth gyfraniad anfesuradwy i fywyd yr ardal hon ac i Gymru benbaladr.

Roedd gan Eddie egwyddorion cadarn, ac mae arwyddair yr Urdd, un o'r amryfal fudiadau y gweithiodd Eddie yn ddiflino o'u plaid, yn crynhoi'r egwyddorion hynny a lywiai ei fywyd, sef: Byddaf yn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist.

Fel athro a phrifathro, rhoddodd arweiniad doeth a chadarn i genedlaethau o blant. Gwelodd yr angen am emynau ac alawon addas ar gyfer oes newydd, ac aeth ati i addasu a chyfieithu, a chyhoeddi dwy gyfrol arloesol: *Clap a Chân i Dduw* a *Mwy o Glap a Chân*.

Fel athro ysgol Sul a thrysorydd, ac fel blaenor am 30 mlynedd, rhoddodd wasanaeth amhrisiadwy i Gapel y Garn, ac roedd ei waith fel goruchwyliwr y fynwent yn eithriadol ofalus.

Ar ôl ymddeol, treuliodd Eddie a Bethan oriau lawer yn gweithio'n ddiwyd y tu ôl i'r llenni yn siop Oxfam, Aberystwyth, ac yn trefnu ymgyrchoedd niferus i gynorthwyo'r anghenus, yn cynnwys Cymorth i Bosnia a bocsys Operation Christmas Child.

Gwnâi gymwynasau lu â chyfeillion a chymdogion, ac roedd ganddo ddawn arbennig i gynnig gair o gysur a diddanwch wrth ymweld.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Bethan, ei gymar oes a'i 'enaid hoff, cytûn', ac â Nerys a Dafydd a'u teuluoedd.

## Chwefror

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**1** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Ysgol Sul dan ofal Zoe Jones
Oedfa'r hwyr yn y Garn – Mr Arwyn Pierce

4 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Mapio' gyda Mike Parker

**8** Dr Rhidian Griffiths

**15** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Bywyd yn Glasgow' – Mabli Hall

**22** Oedfa i'w threfnu yn y bore
Oedfa'r hwyr: Y Barch Enid Morgan

Os ydych yn barod i gynorthwyo gyda stiwardio arholiadau cerdd yr ABRSM, cysylltwch ag Alan Wynne Jones ar 01970 828163.

Hefyd, os ydych yn barod i wasanaethu fel organydd a/neu fel cyfeilydd ar y piano yn y gwasanaethau ar y Sul, cysylltwch ag Alan Wynne Jones ar 01970 828163.

## Mawrth

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Eddie Jenkins*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**1** Oedfa Menter Gobaith

4 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch

**8** Oedfa'r bore dan ofal aelodau'r Eglwys
Ysgol Sul dan ofal Zoe Jones
Oedfa'r hwyr dan arweiniad y Bugail

**15** Bugail
Oedfa gymun yn y bore; oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni Hywel Wyn Edwards

**22** Parch John Roberts



**29** *Sul y Blodau* – Parch Ddr Goronwy Prys Owen

**Ychydig Hedd**

Rwyf fel blodeuyn a'r gaeaf ar hynt,
Rwyf fel y gannwyll a chwythwyd gan wynt,
Rwyf fel aderyn â'i aden yn friw,
Rwyf weithiau yn brudd fy myd.
Ond yna mae'n gwawrio, daw gobaith i'm rhan,
Dychmygaf weld golau o'm cylch ym mhob man,
Os caeaf fy llygaid caf weled drwy'r gwyll
Y freuddwyd sydd dan fy mron.

Ychydig garu, ychydig roddi,
I greu breuddwydion i wella'n byd ni,
A chael amynedd a dealltwriaeth
I greu yfory sy'n llawn o hedd.
Ychydig heulwen i fod yn llawen
I symud ymaith bob cas a chynnen,
Ychydig obaith, a gweddi dawel
I greu yfory sy'n llawn o hedd. (*Clap a Chân i Dduw*, cyf. Eddie Jones)

## *Chwiorydd Capel y Garn*




Cynhaliwyd Paned a Chacen blynyddol y Chwiorydd yn y festri fore Sadwrn, 29 Tachwedd, pryd y gwahoddwyd pobl i ddod â chyfraniadau i Fanc Bwyd y Jiwbilî. Roedd staff Cartref Tregerddan wedi paratoi Cacen Adfent hyfryd ar ein cyfer eleni eto a thorrodd y gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, y darn cyntaf i agor y digwyddiad. Yna cafwyd egwyl ddifyr iawn dros goffi a danteithion tymhorol yn rhannu penbleth wrth geisio datrys pos lluniau blynyddol Iestyn Hughes. Rhannwyd elw'r cyfarfod rhwng Capel y Garn a'r Stordy Bwyd.

Crëwyd naws gynnes y Nadolig brynhawn Mercher, 3 Rhagfyr, pan ddaeth Eryl Evans i'r te misol. Wrth arddangos ei gwaith llaw cain a dyfeisgar rhannodd beth o'i hanes a'i hatgofion a darllen darnau o farddoniaeth yn ymwneud â'r Nadolig. Merched y Dolau oedd yn gweini'r te.

## *Rehoboth*



Ddydd Sadwrn, 20 Medi, aeth nifer dda o aelodau a chyfeillion o Gapel Rehoboth ar daith i ymweld ag Abaty Cymer, Dolgellau, Canolfan Ednowain, Trawsfynydd, ac ymlaen i Borthmadog, gyda John Leeding yn yrrwr medrus a gofalus. Pwrpas y daith oedd deall ychydig mwy am hanes y merthyr John Roberts. Cafodd John Roberts ei eni a'i fagu yn ardal Trawsfynydd a daeth dan ddylanwad un o fynachod Abaty Cymer. Aeth ymlaen i astudio'r Gyfraith yn Rhydychen. Bu'n astudio mewn mynachlogydd yn Ffrainc ac yn Santiago de Compostella cyn dychwelyd i Brydain. Bu'n gweini ar y tlodion a oedd yn dioddef o'r Pla Du. Cafodd ei garcharu sawl tro a'i ddienyddio yn Llundain ar 10 Rhagfyr 1610 yn 33 oed. Cafodd ei wneud yn sant yn y flwyddyn 1970 ac yn un o ddeugain Merthyr Cymru a Lloegr a gydnabyddir gan yr Eglwys Babyddol.

Cafwyd cinio yng Nghanolfan Coed y Brenin cyn mynd ymlaen i Drawsfynydd a Chanolfan Ednowain. Mae'r arddangosfa yn y Ganolfan yn egluro llawer iawn o'i hanes a'r cyfnod cythryblus y bu'n byw ynddo, yn ogystal â gwybodaeth am yr ardal honno a'i hanes diddorol.

Ar y ffordd adref mwynhawyd swper blasus yng Ngwesty'r Llew Coch, Dinas Mawddwy.

## *Bedydd yn Rehoboth*




Dydd Sul, Medi'r 14eg, yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, bedyddiwyd Mared Alaw ac Owain Hedd, plant Gwenan ac Aled Jones, Eglwys Newydd, Caerdydd, gan y gweinidog, y Parch Wyn Morris. Mae Mared ac Owain yn wyrion i Dilwyn a Carys, Llys Eleri, Tal-y-bont. Pob dymuniad da i'r teulu.

Cyfeiriad newydd y Parch a Mrs R W Jones
o fis Ionawr ymlaen fydd:

Haddef
25 Ffordd Cynan
Borras
WRECSAM
LL12 7SS

Rhif ffôn: 01978 365302

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Ar ddechrau tymor newydd, estynnodd y Llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri Capel Rehoboth, Tre-Taliesin, brynhawn Mawrth, 9 Medi, a chyflwynodd ein gwraig wadd, sef Jasmine Wilson o Bontrhydfendigaid. Sôn am ei phrofiadau pan fu'n cymryd rhan yn rhaglen *Y Plas* a ddangoswyd ar S4C a wnaeth Jasmine yn ystod y prynhawn. Am dair wythnos ym mis Medi 2013, fe wnaeth deunaw o bobl gamu yn ôl i 1910 a byw fel meistri a gweision ym mhlasty Llanerchaeron. Cymryd rhan y gogyddes a wnaeth hi, ac er bod y gwaith yn galed ac yn anodd ar adegau, dywedodd fod y profiad o gymryd rhan yn y rhaglen wedi bod yn wych. Talwyd y diolchiadau gan Ann Jenkins, gyda Mai Leeding a Myfanwy Rowlands yng ngofal y te ar y diwedd.

Yn y cyfarfod nesaf ar 14 Hydref darllenodd ein Llywydd dri phennill o awdl 'Y Cynhaeaf' gan y Prifardd Dic Jones, ac yna cyflwynodd ein gwraig wadd, sef Rhian Medi, merch Dic Jones. Bu'n sôn am ei gwaith fel Swyddog Addysg gydag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladu Cadwgan ynglŷn â'r gwaith o adfer Castell Aberteifi ar gost o bron i £12m. Bwriedir ailagor y safle y flwyddyn nesaf fel atyniad i ymwelwyr ac fel canolfan i gynnal gweithgareddau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, diwylliant, crefftau, yr amgylchedd ac astudiaethau garddwriaethol. Cafwyd cân gan Rhian Medi i gyfeiliant yr acordion i gloi'r cyfarfod. Diolchwyd iddi am brynhawn diddorol ac addysgiadol gan Myfanwy Rowlands. Wedyn mwynhawyd te a sgons wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

I ddechrau'r cyfarfod ar 11 Tachwedd darllenodd Eiriona soned o waith T. E. Nicholas cyn cyflwyno ein siaradwr gwadd, Hywel Wyn Jones o Lanrhystud. Traddododd Hywel yn ddiddorol iawn am hanes a bywyd 'Niclas y Glais', gŵr arbennig fel pregethwr, heddychwr, llenor a bardd toreithiog. Roedd nifer o'r chwiorydd yn cofio amdano pan oedd yn byw ac yn gweithio fel deintydd yn Aberystwyth. Diolchwyd i Hywel gan Carys Briddon, a pharatowyd y te ar y diwedd gan Non Griffiths ac Eirlys Jones.

*Carys Briddon*



Bedyddiwyd Math Lewys, mab bach Steffan ac Elen, a brawd Lois, gan y Gweinidog yn ystod yr oedfa deuluol yn y Garn fore Sul, 16 Tachwedd

### *Grŵp Help Llaw*



Mae'r Grŵp Help Llaw yn dal i gyfarfod bob prynhawn Mercher (ac eithrio'r un cyntaf yn y mis) a hynny am 2.30 p.m. yn Festri Capel y Garn.

Rydym yn dal i dderbyn stampiau er budd Oxfam a hen sbectolau ar gyfer Vision Aid Overseas. Mae gennym stondin lyfrau ail-law a'r cyfraniadau (diolch amdanyn nhw) yn mynd at yr elusen Water Aid.

Mae aelodau'r grŵp hefyd yn dal i wau ar gyfer babanod mewn angen.

Trowch i mewn am baned a sgwrs neu cysylltwch â Shân (828268) neu Bethan (611502). Diolch.

***Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngogledd Ceredigion: Prosiect Cofio a Myfyrio***

Mae arddangosfa Cofio a Myfyrio ar y Rhyfel Mawr Pwyllgor Tair Gofalaeth gogledd Ceredigion wedi dod i ben ei thaith. O'r trafod a'r pendroni dechreuol daeth y prosiect yn realiti ddechrau mis Tachwedd, a hynny'n bennaf o ganlyniad i guradu hollol ymroddgar William Howells ac arweiniad creadigol Euros Lewis.

Y cam cyntaf oedd y Diwrnodau Cywain a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn ardaloedd y tair gofalaeth i roi cyfle i bawb ddod â'u creiriau i'w dangos i'r curadur. Cafwyd casgliad syfrdanol, yn cynnwys cardiau post a chardiau Nadolig, nodlyfrau, dyddiaduron, llythyron a lluniau, medalau a cheiniogau'r meirw, arfau bygythiol ac anrhegion cain, tystysgrifau nyrsio, ewyllysiau, dogfennau dadfyddino, Beiblau, a'r cyfan wedi eu cadw gyda gofal mawr a phopeth yn dod â'i stori gydag ef.

Paratowyd llawlyfr i roi cefndir i'r arddangosfa, ac i gydredeg â'r prosiect ond yn annibynnol oddi arno, cyhoeddodd Gwynfor Hughes, Caerdydd, lythyron ei dad, William Hughes, mab Tŷ Capel y Garn, o'r Ffrynt Gorllewinol at ei gyfaill T. I. Rees, Bronceiro (tad Mrs Morfudd Rhys Clark), a oedd yn gweithio i'r Gwasanaeth Diplomyddol yn Venezuela ar y pryd. Yn addas iawn felly, Gwynfor Hughes agorodd yr Arddangosfa yn Neuadd Rhydypennau, yng nghwmni plant ysgolion cynradd ardaloedd y tair gofalaeth a band pres o bobl ifainc lleol. Clywyd hefyd ddarlleniad o Neges Ewyllys Da yr Urdd, a rhoddodd William Howells ac Euros Lewis ragflas o'r hyn oedd i ddod i ni.



Morfudd Rhys Clark a Gwynfor Hughes



Gosodwyd yr arddangosfa yn dair rhan, sef tri chabinet lle roedd y pethau hynny na ellid eu glynu wrth y paneli, cilfach lle roedd lluniau John Meurig Edwards o wersylloedd y Tiriogaethwyr yn cael eu dangos ar sgrin, ac yn olaf, ond nid yn lleiaf, y deugain panel arddangos.

Ar y deuddeg panel cyntaf roedd enwau a manylion 65 o frodorion yr ardal a laddwyd. Yna roedd tri phanel yn rhoi sylw i William Oliver Jones, Taigwynion, ewythr Gwenda James, ar sail yr wybodaeth fanwl yn ei lythyron, ei ddyddiaduron a'i nodlyfrau. Dilynwyd hynny gan ddau banel yn ymdrin ag ymdrech merched – roedd y curadur wedi synnu cyn lleied o sylw a gâi eu cyfraniad yn gyffredinol. Roedd dau banel ar William Hughes a T. I. Rees, a dau ar wersylloedd Bow Street a Gelli Angharad; un ar recriwtio a hyfforddi ac un ar yr Efaciwîs o Wlad Belg a fu yn ysgol Rhydypennau. Cardiau post a anfonwyd o'r Ffrynt oedd ar y panel nesaf, ac yna hanes y rhyfel ar y môr a H. Byron Williams yn benodol. I orffen, cafwyd wyth panel o luniau ac atgofion y rhai a ddychwelodd o'r rhyfel, gydag ambell stori, fel un John M. Davies, Ponterwyd, am ei amlen werdd, yn ddychryn, a'r toriad papur newydd am y gwrthwynebydd cydwybodol Robert John Ellis yn agoriad llygad. I gloi'r arddangosfa rhoddwyd sylw i'r gwaith o godi arian i goffáu'r lladdedigion, a llun dadorchuddio'r gofeb ym Mhenrhyn-coch.

Tra oedd hyn i gyd yn cael ei drefnu roedd Euros Lewis wedi bod wrthi'n llunio drama ar sail yr hyn a glywsai am atgofion lleol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Canlyniad hynny oedd perfformiad dramatig dirdynnol yn cael ei gyflwyno gan actorion penigamp mewn dwy ran: Act 1 yn y Garn a chapel Penllwyn, ac Act 2 ym Methel, Tal-y-bont, a Horeb, Penrhyn-coch. Cyfrannwyd dros £300 i Gymdeithas y Cymod o'r casgliadau yn y perfformiadau.

A dyna ni, mae'r bwrlwm drosodd a phob un ohonon ni fu'n ymwneud ag e ar ein hennill. Gobeithio bod hynny'n wir hefyd am y 500+ fu'n ymweld â'r arddangosfa ar ei thaith o Rydypennau i Dal-y-bont, i Gapel Bangor, i Benrhyn-coch, i Gapel Seion, ac i Ysgolion Penweddig a Phen-glais.

*Llinos Dafis*




Y boneddigion ifainc, gydag Evan John (Geraint Jenkins) yn y canol,
a’i fam (Rhian Evans)



Huw Emlyn, y gweinidog

Llyfryn dwyieithog yn rhoi cefndir yr arddangosfa, manylion y rhai a gollwyd, hanes gwersyll y Tiriogaethwyr ac yn y blaen.

Copïau ar gael, pris £2, gan Llinos Dafis (828262) neu Marian Beech Hughes (01970 828662)






Gwynant Evans
darllenydd



Euros Lewis
arweinydd creadigol

## *Siwrne 13*


Dyma gyfarchiad fy ffrind ers deugain mlynedd, Hazel Charles Evans, Llais yr Andes, Llandybïe, ar ddechrau'i chyfrol nodedig: 'Ymffrostia rhai iddynt gyfansoddi eu campweithiau o dan ddylanwad y ddiod. Buan y gwelwch nad campwaith mo'r gyfrol hon er iddi gael ei hysgrifennu pan oeddwn dan ddylanwad cyffur arbennig, sef coctel cymysg a elwir yn cemotherapi! Ynddi ceisiais rannu rhai o'm hatgofion, fy mhrofiadau a'm dyheadau gan gynnwys ambell gyfrinach! Ei hamcan yw calonogi ac ysbrydoli llaweroedd sydd yn gorfod wynebu Goliath ein hoes ni, sef yr C fawr.'

Mae'n werth craffu ar gyflwyniad trawiadol Menna Elfyn: 'Sonnir yn aml am gawr o ddyn ond dyma gawres o ferch a wnaeth gyfraniad aruthrol i Gymru a'r Wladfa, fel llenor, athrawes ac arloesydd yno ac mae'r egni a deimlir yn y gyfrol yn cyffwrdd â'r galon a'r deall. Ond cyfrol nad oes ei thebyg yw hon, wrth iddi ddwyn tystiolaeth am wewyr bywyd ar hyd llwybrau salwch a choridorau ysbyty.

'Ac eto, cynnig y gyfrol hon obaith i'r drylliedig, a ffydd yng ngallu cymar a chwmnïaeth i esmwytháu blinderau. Llawlyfr yw ar sut i ddal pen rheswm â'r clefyd sydd yn rhy gyfarwydd i ni i gyd. Dengys i ni ei ffordd arbennig hi o oroesi yn orfoleddus trwy rym ei hysbryd a'r Ysbryd anorchfygol. Taith unigolyn ydyw ond taith i bawb, ac arweiniad ar sut mae ymgyrraedd at oleuni cariad sy'n drech nag unrhyw glwyf. Cyfrol i'w hedmygu am ei dycnwch, ei dyfalbarhad a'r gallu i'n codi ni hefyd "uwchlaw cymylau amser" gyda phelydrau x o ras.'

Nid dyma'r tro cyntaf i Hazel ymateb yn greadigol i ddolur ac adfyd gan iddi, ar ôl colli'i phriod Aeron – yntau'n gyfaill piwr i mi ac yn weinidog da i Grist – ym 1994, fynd i Batagonia i fod ymhlith yr arloeswyr aeth yno i ddysgu'r Gymraeg i blant ac oedolion. A gan iddi ddechrau pregethu yn 16 oed yn ei mam-eglwys – Soar, Llwynhendy, dan gyfarwyddyd D. J. Jenkins, ei gweinidog – ailagorodd gapel Seion, Esquel, cynnal oedfaon, dathlu'r Cymun a derbyn pobl ifanc yn aelodau. Pan oedd Gwenda a minnau yno yn 2007 roedd 50 yn gwrando arnaf. Fel ein ffrind Aur, Godre'r Aran, roedd Hazel yn hoffi ardal yr Andes ac elwodd y ddwy ar garedigrwydd y bobol, yn enwedig Rini Griffiths sydd â'i gwreiddiau yn Llanuwchllyn. Ceir sawl llun ohoni yn y llyfr a phan ddaeth yma'r llynedd bu'n gweini ar Hazel yn ei salwch blin.

Ar ôl ei hyfforddi'n athrawes a dysgu am flwyddyn ym Mhontrhydfendigaid, bu'n gweithio i'm tad yn y ffydd, T. J. Davies, yn trefnu Wythnos y Gair yn Aberystwyth, 1967: 'Bu'r ddwy flynedd o gydweithio gydag unigolyn deinamig fel T.J. yn brofiad bythgofiadwy. Bu'r profiad yn gymorth mawr imi wrth fynd ati'n ddiweddarach i werthu "brics" ar gyfer adeiladu Canolfan Gymraeg yn Esquel!' Gwelir y brics yn y llun o'r maen ar y mur a osodwyd yno i gydnabod llafur Hazel: CANOLFAN Salon Hazel Charles Evans 25–03–02.




Ar ôl bod am fron-brawf ar 13 Medi y llynedd a chael gwybod y byddai'n gorfod wynebu triniaeth, cemotherapi a radiotherapi, dywedodd wrth Parry, ei phriod, 'Sa i'n gallu credu hyn, ti'n gw'bod.' A'i ateb bob tro fyddai, 'Fe ddoi di drwy hyn, Êz.' Mae'n enwi Parry yn gyson a nifer ohonom ni, ei ffrindiau, fu'n gefn iddi. Adrodd emyn a salm fyddai Hazel yng nghanol y triniaethau ac wedi i nyrs ei chlywed yn adrodd ei hoff salm, 'Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd. O ble y daw cymorth i mi?' gwaeddodd, 'Praise the Lord!'

Un diwrnod gofynnodd: 'Ydi Duw yn dweud rhywbeth wrthyf fi? Ei bod yn bryd imi dreulio mwy o amser yn ei gwmni Ef, efallai ... Gweddïo? Oeddwn a nac oeddwn. Dau air yn unig, "O! Arglwydd." Dim mwy. Ond fe wyddai Ef y cyfan oedd yn fy nghalon.' Yn lle gweinyddu'r cymun ar fore'r Pasg yn y Tabernacl, Treforys, roedd yn ei phoenau yn diolch am 'gyfle i ddwys fyfyrio ar y Groes a'r Dioddefaint, a gallu darllen ychydig adnodau cyn cysgu'. Ac mae'n canu grwndi – 'Mae'n fy ngharu, diolch iddo, / Prynodd fi ar Galfari'.

Ar ôl diolch am ffydd, ffrindiau ac adferiad, mae Hazel yn holi ar derfyn y gyfrol: 'Gofynnaf y cwestiwn deifiol hwnnw sydd ar wefusau pob un a fu ar yr un "Siwrne" â mi. Tybed ai yn ei ôl y daw? Ac os y daw, pryd? Dim ond Un a ŵyr hynny – yr Un hwnnw, yn ôl Morgan Rhys, sy'n "Geidwad i'r colledig ac yn Feddyg i'r gwywedig rai".' Mentrodd Hazel gyhoeddi'r gyfrol ar ei chost ei hun ac os carech gael copi – am £10 – cysylltwch â hi ar 01269 850697, neu â mi ar 01970 828350.

*W J Edwards*

***Rhai o ddigwyddiadau'r Morlan, Aberystwyth, yn 2015***

**CRISTNOGAETH21**
*Iesu, yr Aberth Maddeugar* gan James Alison
dan arweiniad y Barch Enid Morgan
14, 28 Ionawr; 4, 18 Chwefror; 4, 18 Mawrth am 7.30 pm

**Diwrnod Cofio'r Holocost**
Dydd Mawrth, 27 Ionawr, 12.00–1.30 & 4.30–6.00: cyfle i ymdawelu, myfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil-laddiadau, ac fel arwydd o obaith ar gyfer y dyfodol.

**Sylhet – y genhadaeth goll?**
Nos Fercher, 4 Chwefror am 7 pm: anerchiad gan Aled Gruffydd Jones ar etifeddiaeth y Genhadaeth Bresbyteraidd Gymreig yn Sylhet, Bangladesh.
Mynediad: £3.

***Joyeux Noel***
Nos Fercher, 25 Chwefror, am 7 pm: dangosiad ffilm a thrafodaeth. Mae llawer o sôn yn y newyddion am y cadoediad a ddigwyddodd yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ynghanol gaeaf 1914, ac adrodd y stori honno mae'r ffilm hon. Trefnir y noson gan Morlan a Chrynwyr Aberystwyth.
Mynediad: £3.

*Croeso cynnes i bawb*

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Heulwen Lewis, Pen-llwyn
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Mawrth**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com